COFNODION CYFARFOD EITHRIADOL O'R CYD-BWYLLGOR MOESEG ANNIBYNNOL

Dydd Iau, 10 Mawrth 2022 – drwy Microsoft Teams

1. Yn bresennol

Yn bresennol:	
Dr John William Devine (Cadeirydd)	**Cyflwynwyr Gwadd:**
Mr Mike Lewis (Is-gadeirydd)	Yr Uwch-arolygydd Stephen Drayton
Dr Jacqueline Gantley	Rhingyll Rhodri James
Mrs Bronwen Williams	Yr Arolygydd Andrew Hedley
Dr Harriet Pierpoint	
Ms Jayne Woodward	**Ymddiheuriadau:**
Rhingyll Sian O'Shea	Prif Gwnstabl Cynorthwyol Mark Travis
Arolygydd Matthew Hicks	Rhingyll Claire Evans-Bell
Ms Carol Woodward	Prif Uwch-arolygydd Simon Belcher
Prif Uwch-arolygydd Danny Richards	Ditectif Arolygydd Jack Wiskerd
Ms Nia Brennan	Mr Joga Singh
Mr Martyn Jones	Mr Lee Jones
Rhingyll Jennifer Owen	Ms Laura Stevenson
Ms Amy Davies (Ysgrifenyddiaeth)	Rhingyll Nisha Govani
Ms Sarah Griffiths (Ysgrifenyddiaeth)	
Ms Holly Watson (Cofnodion)	

1. DIWEDDARIAD AR YR AP ADNABOD WYNEBAU

1.1 Diweddariad ar yr Ap Adnabod Wynebau

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a chyflwynodd y siaradwyr gwadd, yr Uwch-arolygydd Stephen Drayton, Rhingyll Rhodri James a'r Arolygydd Andrew Hedley.

Rhoddodd yr Arolygydd Hedley gefndir yr Ap Adnabod Wynebau ar ôl i'w gam peilot gael ei gwblhau'n ddiweddar:

- Lansiwyd technoleg adnabod wynebau Byw ac Ôl-weithredol yn Heddlu De Cymru yn 2017. Cafodd y dechnoleg Adnabod Wynebau Byw a gyflwynwyd fel cynllun peilot gryn sylw yn y cyfryngau ac roedd yn destun gwrandawiad a dyfarniad proffil uchel yn y Llys Apêl (*R(Bridges) v CC South Wales Police & Ors* [2020] EWCA Civ 1058).
- Cynhaliwyd y cynllun peilot i dreialu'r Ap Adnabod Wynebau rhwng 9 Rhagfyr 2021 a 9 Mawrth 2022. Cymerodd carfan o 60 o swyddogion o bob rhan o Heddlu De Cymru a Heddlu Gwent ran yn y cynllun peilot. Dyma'r heddluoedd cyntaf i ddefnyddio'r dechnoleg. Bwriedir i'r Ap gyflawni dau brif ddiben, sef: adnabod unigolion dan amheuaeth a diogelu pobl sy'n agored i niwed.
- Mae Heddlu De Cymru wedi ymgynghori â gwahanol gyrff a phwyllgorau, gan gynnwys Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, er mwyn sicrhau bod yr Ap yn gyfreithlon.
- Er mwyn defnyddio'r Ap, rhaid bod gan swyddog 'sail resymol' dros wneud hynny, er enghraifft, os na all yr unigolyn dan amheuaeth roi ei fanylion i'r swyddog (am ei fod wedi marw, yn anymwybodol neu'n methu â gwneud hynny), os bydd yn gwrthod rhoi ei fanylion iddo neu os bydd wedi rhoi manylion anghywir iddo.
- Dim ond os amheuir bod yr unigolyn wedi cyflawni trosedd, os yw'n destun amodau mechnïaeth neu orchymyn llys neu os amheuir ei fod yn berson coll, y gall niweidio ei hun neu bobl eraill neu ei fod wedi marw, y gall y swyddog ddefnyddio'r Ap.
- Mae'r swyddog yn tynnu llun o unigolyn, yn cwblhau rhestr wirio seiliau rhesymol ac yn cofnodi data biometrig (e.e. rhyw, ethnigrwydd ac ati). Wedyn, mae'r Ap yn chwilio am gyfatebiad rhwng y llun a chronfa ddata dalfa'r heddlu
- Dim ond ar sail ryngweithiol y defnyddir yr Ap - dylai dulliau plismona traddodiadol gael eu defnyddio yn gyntaf bob amser.

1. DIWEDDARIAD AR YR AP ADNABOD WYNEBAU

- Mae mesurau wedi'u rhoi ar waith er mwyn sicrhau tryloywder, gan gynnwys strategaeth gyfathrebu gadarn, trefniadau cydweithio â phartneriaid mewnol/allanol, proses hyfforddi drylwyr a'r defnydd o gamerâu fideo a wisgir ar y corff wrth ddefnyddio'r Ap er mwyn ei gwneud yn bosibl i ddeunydd fideo gael ei adolygu a gwersi gael eu dysgu.
- Mae dogfen 'adolygu a gwersi a ddysgwyd' lawn o'r cynllun peilot yn cael ei pharatoi gan yr Arolygydd Andy Hedley, Arweinydd Tîm Adnabod Wynebau Heddlu De Cymru (y cymerir ei le yn fuan gan yr Arolygydd Ben Gwyer). Caiff yr adroddiad hwn ei ystyried gan PGC Travis (Uwch-Swyddog Cyfrifol y Tîm Adnabod Wynebau) ynghyd â Gwerthusiad Tegwch sy'n cael ei gynnal gan y Labordy Ffisegol Cenedlaethol. Disgwylir i'r adroddiad gael ei gyhoeddi ym mis Hydref 2022.

Cwestiynau a godwyd:

- Beth yw'r sefyllfa gyfreithiol pan fydd unigolyn yn gwrthod rhoi ei fanylion? (JG)
- Mae pryder wedi'i fynegi mewn llenyddiaeth academaidd y gall gwahaniaethu arwain at anghymesuredd wrth ddefnyddio'r dechnoleg. Mae'r pryder hwn yn debyg i bryderon ynghylch anghymesuredd sydd wedi'u mynegi mewn perthynas â'r defnydd o bwerau stopio a chwilio. Mae llenyddiaeth hefyd yn dangos bod y dechnoleg yn fwy tebygol o gamadnabod pobl drawsrywiol a'r rhai o leiafrifoedd ethnig. Beth mae Heddlu De Cymru yn ei wneud er mwyn sicrhau nad yw'r dechnoleg yn cael ei defnyddio mewn ffyrdd gwahaniaethol ac na fydd yn cael ei defnyddio felly? (HP)
- A all swyddogion rheng flaen wirio olion bysedd yn electronig pan fyddant ar batrôl? (ML)
- Pa mor agos y mae'n rhaid i'r swyddog fod at yr unigolyn y mae ei lun yn cael ei dynnu? Er enghraifft, a allai swyddog dynnu llun o dorf, chwyddo mewn ar wyneb rhywun ac yna chwilio am yr wyneb hwnnw drwy'r ap? A oes unrhyw ddulliau ar hyd o bryd ar gyfer nodi pryd y gall y fath ffotograffio anwahaniaethol fod wedi digwydd? (JWD)

Rhagor o wybodaeth

- Cadarnhaodd yr Arolygydd Hedley y gall unigolion wrthod rhoi ei fanylion yn gyfreithlon os nad amheuir ei fod yn cyflawni trosedd. Os amheuir ei fod yn cyflawni trosedd, gellir ei arestio er mwyn cael ei fanylion.
- Mae gwahaniaethu ac anghymesuredd yn rhannau allweddol o'r astudiaeth genedlaethol sy'n cael ei chynnal gan y Labordy Ffisegol Cenedlaethol. Mae'r astudiaeth yn werthusiad trylwyr sy'n ceisio deall canlyniadau cadarnhaol anghywir a'r ffordd y mae'r defnydd o'r dechnoleg hon yn effeithio ar nodweddion gwarchodedig. Bydd Bwrdd Defnyddio Pwerau'r Heddlu hefyd yn craffu ar yr Ap.
- Ni all swyddogion rheng flaen ddefnyddio technoleg olion bysedd tra byddant ar batrôl, dim ond dulliau olion bysedd traddodiadol yn y ddalfa.
- Wrth gwrs, gallai swyddog dynnu llun o dorf ac yna chwyddo mewn ar wyneb penodol ond ni chaniateir i swyddogion wneud hynny. Fel y nodwyd uchod, dim ond ar sail ryngweithiol y dylid tynnu llun. Bydd tîm yn adolygu unrhyw ddefnydd a wneir o'r Ap, gan gynnwys y camera fideo a wisgir ar y corff, er mwyn sicrhau bod Heddlu De Cymru wedi bodloni'r gofynion hyn ar gyfer ei ddefnyddio. Cysylltir â swyddogion a rheolwyr llinell er mwyn cydnabod bod yr Ap wedi'i ddefnyddio a rhoi unrhyw gyngor yn ôl yr angen. Cynhelir y strwythur adolygu hwn yn y dyfodol.

Cyflwynodd Rhingyll Rhodri James ganlyniadau cynllun peilot yr Ap Adnabod Wynebau:

- Casglwyd cyfanswm o 42 o achosion o ddefnyddio'r Ap ar 35 o unigolion. Nodwyd sawl defnydd dyblyg o'r Ap pan oedd problemau gyda goleuadau neu signal ffôn symudol wedi codi.
- Arestiwyd wyth unigolyn ar sail cyfatebiadau a chanfuwyd 21 o gyfatebiadau hysbys allan o 35 o unigolion ar system rheoli cofnodion NICHE.
- Mewn rhai achosion, ceisiwyd 'dim cyfatebiad' lle y nododd yr unigolion dan sylw nad oeddent wedi dod i gysylltiad â'r heddlu o'r blaen ond roedd cywirdeb yr honiad hwn yn cael ei amau.
- Mae'r Ap wedi'i ddefnyddio ar bob un o'r pedair sail: achosion yn ymwneud ag unigolion coll, achosion yn ymwneud ag unigolion meddw, achosion lle yr amheuir bod trosedd wedi'i chyflawni ac achosion yn ymwneud ag unigolion marw:

Achos yn ymwneud ag unigolyn coll:

Roedd swyddogion ar batrôl neithiwr yng Nghaerdydd pan redodd dyn ifanc i ffwrdd oddi wrthynt yn sydyn. Gwnaeth y swyddogion gadw'r dyn yn gaeth am eu bod yn amau y gallai fod yn unigolyn coll. Gwnaethant ddefnyddio'r Ap a thynnu llun o'r dyn. Daeth yr Ap o hyd i gyfatebiad ar unwaith ac roedd hyn wedi galluogi'r swyddogion i adnabod y dyn a rhoi mesurau diogelu ar waith yn gyflym.

Achosion yn ymwneud ag unigolion meddw:

Ymddangos dyn yn Abertawe ag anafiadau i'w wyneb ar ôl bod yn rhan o helynt yng nghanol y ddinas. Gofynnodd swyddogion iddo gadarnhau pwy ydoedd ond roedd mor feddw fel na allai siarad. Cadarnhawyd pwy ydoedd drwy ddefnyddio'r Ap a chafodd ei gludo yn ôl i le diogel (ei gartref). Mewn ail achos, canfuwyd dyn yn anymwybodol o ganlyniad i feddwi y tu allan i orsaf reilffordd Caerdydd Canolog. Defnyddiwyd yr Ap i'w adnabod, canfuwyd cyfeiriad ei gartref ac aethpwyd ag ef adref i'w loches leol i bobl ddigartref.

1. DIWEDDARIAD AR YR AP ADNABOD WYNEBAU

Achosion lle yr amheuir bod trosedd wedi'i chyflawni:
Rhoddodd dau yrrwr a oedd wedi'u gwahardd rhag gyrru fanylion anghywir i swyddogion sawl gwaith. Roedd yr Ap wedi galluogi'r swyddogion i gadarnhau bod y wybodaeth a roddwyd iddynt yn anghywir. Mewn achos arall, ceisiodd unigolyn a oedd wedi dwyn o siop dwyllo swyddogion i ddefnyddio datrysiad y tu allan i'r llys, gan honni nad oedd wedi dod i gysylltiad â'r heddlu erioed o'r blaen. Cafwyd yn ddiweddarach fod yr honiad hwn yn anwir drwy ddefnyddio'r Ap. Mewn trydydd achos, rhoddodd dyn a gadwyd yn gaeth gan swyddogion rhagweithiol fanylion ei frawd. Er bod eu proffiliau ar NICHE yn ymddangos yn debyg iawn i'w gilydd, diystyrodd yr Ap ei frawd ar unwaith.

Achos yn ymwneud ag unigolyn marw:
Camodd dyn i mewn i draffig er mwyn lladd ei hun. Yn dilyn y digwyddiad, roedd yn anodd ei adnabod. Nid oedd ganddo unrhyw ddogfennau adnabod er i awgrymiadau gael eu gwneud ynglŷn â phwy ydoedd. Defnyddiwyd yr Ap a chafodd ei adnabod yn gywir. Roedd yr Ap hefyd wedi galluogi'r heddlu i gysylltu â'i berthynas agosaf.

Soniodd Rhingyll Rhodri James am wersi a ddysgwyd. Mae sgoriau cyfatebiadau'r Ap yn llawer uwch na'r disgwyl oherwydd ansawdd y lluniau sy'n cael eu tynnu. Mae ôl-adolygiad wrthi'n cael ei gynnal ac mae'n bosibl y bydd yn arwain at greu sgôr cyfatebiadau targed' ar gyfer yr Ap. Mae canlyniadau wedi dangos nad yw'r Ap yn creu unrhyw ryngweithiadau diangen, am fod y weithdrefn weithredu safonol yn mynnu mai dim ond o ganlyniad i ryngweithio pan fydd y sail a'r rhesymau wedi'u nodi y caiff yr Ap ei ddefnyddio.

Cwestiynau a godwyd:

- A yw'r defnydd a wneir o'r Ap i ddod o hyd i unigolion coll yn gyson â pharchu rhyddid yr unigolyn? Onid oes gennyf hawl i fynd ar goll? (JWD)
    - Mae hyn yn dibynnu ar oedran a galluedd meddyliol unigolyn. Yn yr achos uchod, roedd yr unigolyn coll yn blentyn dan oed. Mae gan yr heddlu bwerau i gadw rhywun dan oed yn gaeth a chadw rhywun yn gaeth o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl, yn dibynnu ar gyflwr meddyliol yr unigolyn.
- Am fod NICHE yn cadw cofnod o fanylion cyswllt unigolyn (e.e. rhif ffôn) ac y gall swyddogion weld manylion cyswllt unigolyn unwaith y bydd cyfatebiad wedi'i nodi, a yw'r Ap yn codi pryderon ynghylch preifatrwydd? Er enghraifft, a allai swyddog twyllodrus ddefnyddio'r Ap i weld manylion cyswllt unigolyn am resymau nad ydynt yn ymwneud â phlismona? (JWD)
    - Gellir rhoi mesurau rheoli, megis atalyddion technegol, ar waith ar ôl yr adolygiad. Mae'r holl ddata a ddelir yn Heddlu De Cymru a Heddlu Gwent yn ddarostyngedig i'r Ddeddf Diogelu Data. Caiff swyddogion eu haddysgu'n rheolaidd ar hyn ac maent yn hollol ymwybodol mai dim ond at ddibenion plismona y dylid defnyddio data.
- A oes perygl y bydd swyddogion yn symud yn raddol i ffwrdd o ddulliau plismona traddodiadol ac yn defnyddio'r Ap er mwyn arbed amser, o ystyried eu bod bob amser yn brin o amser? (JWD)
    - Mae Heddlu De Cymru yn sicrhau bod prosesau craffu trylwyr ar waith. Caiff gwaith craffu ei wneud gan Oruchwylwyr, Rheolwyr Unedau Rheoli Sylfaenol, paneli, Pwyllgorau a Phrif Swyddogion er mwyn sicrhau na chollir dulliau plismona tradddodiadol.
- A oedd unrhyw dystiolaeth o anghymesuredd wrth ddefnyddio'r Ap? (JWD)
    - Caiff data ethnig eu storio ar broffiliau NICHE. Nid yw'r canlyniadau wedi dangos unrhyw broblemau amlwg eto, ond mae'r adolygiad yn dal i fynd rhagddo ac mae data a deunydd fideo camerâu a wisgir ar y corff yn dal i gael eu casglu.
- Sawl gwaith y defnyddiwyd yr Ap i ddiogelu pobl sy'n agored i niwed a sawl gwaith y cafodd ei ddefnyddio mewn perthynas â throsedd? (JG)
    - Ar y cyfan, mae'r Ap wedi'i ddefnyddio mewn perthynas â throseddoldeb. Ar y penwythnos y mae'r Ap wedi cael ei ddefnyddio amlaf mewn achosion a oedd yn ymwneud â phobl feddw. Gall y cyd-destun hwn godi materion sy'n ymwneud â bod yn agored i newid a throseddoldeb. Nid yw'r union ffigurau ar gael eto ond mae'r Ap wedi'i ddefnyddio gyda phob un o'r pum sail.
- Petai swyddog yn colli ei ffôn (pan nad oedd wedi'i gloi efallai), pa fesurau sydd ar waith er mwyn sicrhau na all yr Ap gael ei ddefnyddio gan aelodau o'r cyhoedd sy'n cymryd meddiant ohono? (JWD)
    - Mae ffonau swyddogion wedi'u cloi. Felly, mae angen cyfrineiriau i ddefnyddio'r ffôn a'r Ap Patrôl sy'n cynnwys yr Ap hwn. Gall ffonau gael eu glanhau o bell os cânt eu colli neu os byddant yn mynd i mewn i'r dwylo anghywir.
- Sut y caiff camddefnydd ei dracio? (JWD)
    - Caiff pob trawiad bysell ar yr Ap ei gofnodi yn llyfr poced swyddog. Yn ogystal ag adolygu deunydd fideo'r camera a wisgir ar y corff, mae hyn yn galluogi'r heddlu i adolygu'r rhesymau a'r seiliau dros ei ddefnyddio. Mae'r data yn llyfr poced swyddog yn para am 100 mlynedd. Mae gan yr Adran Safonau Proffesiynol wybodaeth i fonitro defnydd o'r fath hefyd.
- Ym mha ffordd y mae Technoleg Adnabod Wynebau yn cael ei defnyddio yn yr heddlu? (ML)

1. DIWEDDARIAD AR YR AP ADNABOD WYNEBAU

- Mae gwerthusiad annibynnol yn mynd rhagddo. Fel rhan o'r gwerthusiad hwnnw, bydd yr heddlu yn bresennol mewn sawl digwyddiad yn y misoedd sydd i ddod. Unwaith y bydd data wedi'u casglu, byddant yn destun profion trylwyr a gynhelir gan y Labordy Ffisegol Cenedlaethol. Caiff canlyniadau'r profion hyn eu cyhoeddi.

Rhagor o wybodaeth:

Mae cydraddoldeb a hawliau dynol wedi'u hystyried drwy gydol y broses o roi'r Ap ar waith. Bydd asesiad helaeth o'r effaith ar gydraddoldeb yn dilyn y cynllun peilot hwn. Dengys llenyddiaeth fod a wnelo'r pryderon mwyaf ynghylch yr Ap ag anghymesuredd a gwahaniaethu. Bydd yr asesiad effaith hwn yn ystyried y ddau bryder.

Gofynnodd y Cadeirydd am y wybodaeth ddiweddaraf am y cynigion a'r pryderon o'r cyfarfod moeseg blaenorol a drafododd Dechnoleg Adnabod Wynebau. Ailystyriwyd pedwar cynnig o'r fath, sef:

- Gellid sefydlu gweithgor yn cynnwys aelodau o'r cyhoedd er mwyn rhoi adborth ar yr Ap yn ystod y cynllun peilot.
  - Cadarnhaodd yr Arolygydd Hedley, er nad oedd hyn yn digwydd, fod adborth yn cael ei gasglu gan unigolion yr oedd yr Ap wedi'i ddefnyddio arnynt. Bwriedir ymgynghori â'r cyhoedd ar ôl yr adolygiad mewn digwyddiadau ac yng nghanol trefi er mwyn sicrhau eu bod yn deall yr Ap a'r hyn y mae'n ei wneud.
- Er mwyn rhoi esboniad ysgrifenedig i'r rhai sydd wedi dod i gysylltiad â'r Ap, er mwyn eu hatgoffa am yr hyn y mae'r Ap yn ei wneud a pham y cafodd ei ddefnyddio.
  - Cadarnhaodd yr Arolygydd Hedley y bydd hyn yn rhan o'r adolygiad a gynhelir ar ôl y cynllun peilot.
- Lleisiwyd pryderon ynghylch y ffaith y gallai'r Ap suro cysylltiadau rhwng yr heddlu a'r cyhoedd.
  - Mae'r treial wedi dangos bod pob unigolyn y defnyddiwyd yr Ap arnynt yn fodlon i swyddogion dynnu eu llun. Nid oedd yr unigolion hyn wedi gwrthod rhoi caniatâd i'w llun gael ei dynnu hyd oed pan oeddent wedi gwrthod rhoi eu manylion. Dangosodd y treial hefyd nad oedd swyddogion wedi dibynnu ar yr Ap yn unig. Ar ôl i gyfatebiad gael ei nodi, byddai swyddogion yn dal i gadarnhau'r manylion ar NICHE gyda'r unigolyn yr oedd ei lun wedi cael ei dynnu. Dilynodd swyddogion ganllawiau cam wrth gam (h.y. mnemonig ROGER) ac esboniodd y defnydd o'r Ap yn glir iawn.
- Lleisiwyd pryderon hefyd ynghylch a ellid ystyried bod yr Ap yn ymestyn pwerau'r heddlu. A oedd nifer y gwiriadau hunaniaeth a gynhaliwyd yn ystod y cynllun peilot yn fwy na'r disgwyl?
  - Mae canlyniadau wedi dangos bod yr Ap wedi'i ddefnyddio fel adnodd ategol pan oedd swyddogion yn wynebu rhwystrau a phan nad oedd unrhyw ffordd arall o gadarnhau pwy oedd unigolyn.

Crynodeb y Cadeirydd:

Cododd y drafodaeth dri mater gwahanol:

1. **Pryderon Moesegol ynghylch y Defnydd Disgwyliedig o OIFR**

Roedd yr aelodau annibynnol wedi'u calonogi, ar y cyfan, gan y cynnydd a gofnodwyd o'r cynllun peilot, yn enwedig y mesurau atebolrwydd helaeth sydd wedi'u rhoi ar waith. Fodd bynnag, mynegwyd rhai amheuon:

- **Canlyniadau Cadarnhaol Anghywir:** Fel gyda thechnoleg Adnabod Wynebau Byw, lleisiwyd pryderon ynghylch a fydd OIFR (adnabod wynebau a gychwynnir gan weithredwr) yn darparu canlyniadau cadarnhaol anghywir ar gyfer pobl drawsrywiol neu aelodau o leiafrifoedd ethnig, er enghraifft.
- **Cysylltiadau Cymunedol:** Gallai OIFR hefyd beri rhwystredigaeth a dicter tuag at yr heddlu am ei fod yn cynnwys tynnu llun o unigolyn ond hefyd am y gallai gyfrannu at orfodi'r gyfraith droseddol yn ormodol lle y byddai mwy o droseddau (yn enwedig mân droseddau) yn cael eu herlyn gan y gallai OIFR yn ei gwneud yn hawdd adnabod unigolion dan amheuaeth.

2. **Pryderon Moesegol ynghylch Camddefnyddio OIFR**

Roedd y drafodaeth yn canolbwyntio'n bennaf ar y materion moesegol sy'n codi o'r posibilrwydd y caiff OIFR ei gamddefnyddio (yn hytrach na materion moesegol a allai godi tra bydd yn cael ei ddefnyddio yn unol â chyfreithiau a chanllawiau cymwys):

- **Y Disgresiwn sydd gan Swyddogion o hyd**: Er gwaethaf y systemau atebolrwydd helaeth sydd wedi'u rhoi ar waith, ymddengys fod OIFR yn dal i ddibynnu ar ddidwylledd swyddogion unigol. Gall swyddog sy'n defnyddio OIFR dynnu llun o grŵp a chwyddo mewn ar unigolyn penodol er mwyn cynnal chwiliad heb yn wybod i'r unigolyn hwnnw. Gallai chwiliad o'r fath roi manylion cyswllt personol yr unigolyn dan sylw i'r swyddog hwnnw, a allai gael eu defnyddio wedyn at ddibenion nad ydynt yn ymwneud â phlismona.

1. DIWEDDARIAD AR YR AP ADNABOD WYNEBAU

3. Arwyddocâd Moesegol Canfyddiadau'r Cyhoedd o OIFR

Un o golofnau canolog cyfiawnhad Heddlu De Cymru dros ddefnyddio OIFR yw bod delweddau heb gyfatebiad yn cael eu dileu bron ar unwaith o'r ddyfais ac, felly, nad yw defnyddio OIFR yn cael fawr ddim effaith ar breifatrwydd yr unigolyn dan sylw pan na nodir unrhyw gyfatebiad. Hyd yn oed os caiff delweddau heb gyfatebiad eu dileu bron ar unwaith, fel y disgrifiwyd, beth os na fydd y cyhoedd yn credu bod y delweddau yn cael eu dileu ar unwaith mewn gwirionedd?

- **Ymddiriedaeth y Cyhoedd yn y Dechnoleg:** Bydd p'un a ellir cyfiawnhau defnyddio OIFR yn dibynnu'n rhannol ar yr hyn y mae'r cyhoedd yn ei gredu amdano. Os bydd cyfran sylweddol o'r cyhoedd yn credu nad yw OIFR yn gweithredu fel y disgrifiwyd (yn benodol mewn perthynas â dileu lluniau a dynnwyd), efallai y bydd y gost o ran ymddiriedaeth y cyhoedd yn ormod i gyfiawnhau defnyddio OIFR, hyd yn oed os bydd y ddrwgdybiaeth yn seiliedig ar gred anghywir ynghylch y ffordd y mae'r dechnoleg yn gweithredu. Mae a wnelo'r mater hwn â'r cyhoedd yn ymddiried yn yr heddlu i ddefnyddio'r dechnoleg o fewn y terfynau rhagnodedig ac yn y cwmni technoleg perthnasol i gynhyrchu dyfeisiau sydd mor ddiogel ag y'i hysbysebir. Mae lefel ymddiriedaeth y cyhoedd yn y ddyfais (p'un a yw'n rhesymol neu'n ddisylwedd) yn foesegol arwyddocaol, yn enwedig yng nghyd-destun plismona drwy gydsyniad.
- **Ymchwil yn y Dyfodol**: Maes ar gyfer ymchwil yn y dyfodol mewn perthynas ag OIFR yw mesur ymddiriedaeth y cyhoedd yn honiadau Heddlu De Cymru ynghylch y ffordd y mae OIFR yn gweithredu, cyfyngiadau ar ddisgresiwn swyddogion wrth ddefnyddio OIFR a'r ffordd y mae'r data a gesglir yn cael eu trin.

Mae statws moesegol y defnydd a wneir o'r Ap yn dibynnu'n rhannol ar ganlyniadau'r defnydd a wneir ohono. Bydd y Pwyllgor yn falch o gael rhagor o wybodaeth pan fydd yr adroddiad terfynol wedi'i gwblhau a'r data wedi'u casglu.

3. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Dydd Iau, 31 Mawrth 2022, 14:00-17:00